



**Partneriaeth
Sgiliau
Prifddinas
Ranbarth
Caerdydd**

**Cardiff
Capital
Region
Skills
Partnership**

Adroddiad y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh)

**Effaith y Pandemig Covid-19 ar Gyflogaeth a Sgiliau:
Adroddiad Cryno Ebrill 2022**

Paratowyd 29 Ebrill 2022

Cynnwys	
CEFNDIR.....	3
CYFLWYNIAD	3
NEGESEUON ALLWEDDOL	5
Effaith Busnes Gyffredinol:	5
Lefelau Staffio a Recriwtio:	5
Hyfforddiant a Datblygu	6
Tabl 1: Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn Adroddiad GFL Covid-19	7
CRYNODEBAU SECTOR	9
DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH	9
LLED-DDARGLUDYDDION CYFANSAWDD	11
ADEILADU	13
CREADIGOL	15
TECHNOLEG DDIGIDOL A GALLUOGOL	18
ECONOMI SYLFAENOL DDYNOL: Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys	20
ECONOMI SYLFAENOL DDYNOL: Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth	22
ATODIAD.....	24
Atodiad 1: Rhestr o rhanddeiliaid sy'n cyfranogi	24

CEFNDIR

O ran darparu sgiliau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddull rhanbarthol i geisio ysgogi'r galw am gyflogaeth a sgiliau trwy roi'r hyblygrwydd i ddatblygu ymatebion yn seiliedig ar angen lleol a rhanbarthol. Mae pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) yn gweithredu ar draws rhanbarthau Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain) a thasg pob un yw cyflawni rolau sy'n cael eu mynegi drwy'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau¹. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r PSRhau i sicrhau bod cyngor yn cael ei roi ar y cyfeiriad strategol o ran sgiliau yn eu rhanbarthau eu hunain. Mae PSRhau yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru am feysydd twf neu ddirywiad, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgysylltiad cryf â chyflogwyr.

Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn cyflawni rôl y PSRh ar draws y 10 Awdurdod Lleol yn Ne-ddwyrain Cymru. Sefydlwyd PSPRC i ddod â phobl ynghyd i hyrwyddo penderfyniadau strategol a chydweithredol. Trwy PSPRC, mae cynrychiolwyr o'r byd diwydiant a darparwyr addysg a hyfforddiant yn ymuno â'i gilydd i rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r sectorau y maent yn eu cynrychioli er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn y sefyllfa orau i ymateb i ddatblygiad sgiliau a thalent.

CYFLWYNIAD

Dechreuodd y pandemig Covid-19 (coronafeirws) yn Tsieina ym mis Rhagfyr 2019 gan ledaenu i'r DU ym mis Ionawr 2020. Yn ystod gwanwyn 2020, cynyddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fesurau cadw pellter cymdeithasol yn raddol gyda'r nod o arafu lledaeniad y feirws. Ar ddydd Gwener 20 Mawrth caewyd ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer dysgu wyneb-yn-wyneb (ar wahân i ddarpariaeth graidd mewn ysgolion ar gyfer plant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol). Mae'r Coronafeirws wedi effeithio'n sylweddol ar yr economi a rhoi cyfres o heriau i lunwyr polisi a'r Llywodraeth. Gwnaeth hyn arwain at ddeddfu amrywiaeth o fesurau (a'u haddasu'n barhaus) i gyfyngu ar yr effaith ar yr economi.

I ddeall yn well yr heriau sy'n gysylltiedig â sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr, ym mis Mai 2020 gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob un o'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gael 'gwybodaeth feddal am y farchnad lafur' ac adrodd bob deufis, gan ddefnyddio'r strwythurau sydd eisoes ar waith. Diben yr ymarfer oedd archwilio effaith y coronafeirws ar y sectorau â blaenoriaeth yn y rhanbarthau perthnasol ac, yn y pen draw, helpu i lywio'r llwybr i adferiad. Er mwyn cefnogi'r broses a helpu i sicrhau

¹ Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru:

Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau - crynodeb [HTML] | [LLYW.CYMRU](#)

dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarthau, cytunwyd ar ystod eang o themâu gyda Llywodraeth Cymru a byddai'r rhain yn cael eu hadlewyrchu wrth ymgysylltu â chyflogwyr a grwpiau clwstwr.

Gan ganolbwyntio'n benodol ar PSPRC, mae'r sectorau blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi oherwydd lefel y gyflogaeth a'u cyfraniad at yr economi (fel y'i nodir yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2019-22²):

- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
- Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
- Adeiladu
- Creadigol
- Technoleg Ddigidol a Galluogol
- Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a'r Gwasanaethau Brys a Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth)

Er nad yw wedi'i ddiffinio fel sector blaenoriaeth penodol, mae PSPRC hefyd yn cefnogi clwstwr Awdurdod Lleol i gydnabod pwysigrwydd y sector cyhoeddus ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

O fis Mehefin 2020, ymgysylltodd PSPRC â'u grwpiau clwstwr sector blaenoriaeth ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill gan gynnwys cyflogwyr, cymdeithasau masnach a darparwyr addysg a hyfforddiant, mewn ymgais i nodi'r heriau cyflogadwyedd a sgiliau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i Covid-19. Gellir gweld rhestr o randdeiliaid a fu'n bwydo i mewn i'r adroddiad yn Atodiad 1. Wedi prosesau ymgysylltu, cynhyrchwyd a chyflwynwyd pum adroddiad manwl i Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2020, Awst 2020, Tachwedd 2020, Mai 2021 a Hydref 2021 (<http://www.ccrsp.co.uk/cym/publications>).

Wrth symud ymlaen, bydd y GFL a sicrhawyd drwy adroddiadau ymchwil Covid-19 yn dylanwadu ar gyfeiriad Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd newydd PSPRC a'r argymhellion tymor byr a thymor hwy cysylltiedig. Bydd y cynllun hwn yn cael ei lansio yn hydref 2022 ac yn darparu mecanwaith i adolygu'r ddarpariaeth sgiliau rhanbarthol a chynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu yn y dyfodol - gan sicrhau i bob pwrpas fod cymaint o arian â phosib ar gael yn y dyfodol ac ysgogi arloesedd. Yn naturiol, bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chyflogwyr, rhanddeiliaid a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16.

² Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC 2019-22

<https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2020/12/ccr-regional-skills-plan.pdf>

Bydd gweddill yr adroddiad hwn yn tynnu ar ganfyddiadau'r ymchwil a bydd yn crynhoi'r negeseuon allweddol ar gyfer pob un o sectorau blaenoriaeth PSPRC. Bwriad yr adroddiad yw cynnig safbwyntiau cyffredinol ar yr effaith ar fusnes, lefelau staffio a recriwtio, y galw am sgiliau ac anghyfatebiad, hyfforddiant cyflogwyr a dysgu seiliedig ar waith.

NEGESEUON ALLWEDDOL

Effaith Busnes Gyffredinol:

Mae'r coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar sectorau blaenoriaeth y rhanbarth. Ond yn naturiol mae wedi effeithio ar rai sectorau yn fwy nag eraill. I ymhelaethu, mae Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, sy'n sector eang, wedi wynebu heriau, yn enwedig o fewn yr is-sectorau Awyrofod a Modurol a'i BBaChau. O ystyried bod y broses gynhyrchu wedi'i hatal, mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y sector Creadigol hefyd yn y cyfnodau cynnar ac mae'r sectorau sy'n sail i'r economi sylfaenol, gan gynnwys lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth, wedi wynebu heriau sydd wedi cael cyhoeddusrwydd helaeth. Yn achos Adeiladu a Thechnoleg Ddigidol a Galluogol, mae'r sefyllfa wedi amrywio: mae rhai busnesau wedi wynebu heriau sylweddol, ond mae eraill wedi rhoi gwybod am aflonyddwch tymor byrrach yn unig.

Ynghyd â'r twf a gofnodwyd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r effaith gyfyngedig o fewn y sector Lled-ddargludyddion Cyfansawdd wedi dal sylw. Yma, bu gostyngiad o ran cynhyrchiant yn y camau cynnar i rai busnesau ond yna bu cynnydd yng ngalw cwsmeriaid am gynnyrch sydd, i bob golwg, wedi atal diffygion ariannol. Gallai hyn, ynghyd â'r angen am gysylltedd cyflym a thechnoleg feddygol, ysgogi twf. Yn achos Technoleg Ddigidol, mae'r angen am Seiber-Ddiogelwch wedi cynyddu wrth i fusnesau nodi gwendidau wrth newid i weithio gartref.


Lefelau Staffio a Recriwtio:

Roedd yr adroddiadau'n awgrymu mai'r unigolion â sgiliau lefel isel oedd yn fwy tebygol o gael eu rhoi ar ffyrlo neu'n wynebu'r risg fwyaf o golli eu swydd. Mae hyn yn peri pryder ac roedd yn ymddangos ei fod yn gyffredin ar draws sawl sector. Mae'n ymddangos hefyd nad yw'r feirws wedi arwain at angen newydd sylweddol i uwchsgilio; fodd bynnag, daeth y cynnydd nodedig o ran gweithio gartref â heriau bach wrth ddefnyddio technoleg rithwir fel Teams, Skype for Business neu Zoom.

Roedd yr adroddiadau'n archwilio'n rheolaidd nifer y swyddi a hysbysebwyd ar draws prif safleoedd recriwtio yn Ne-ddwyrain Cymru. Cafwyd y wybodaeth o Emsi, offeryn masnachol sy'n dadansoddi data o amrywiaeth eang o ffynonellau i gynhyrchu mathau newydd o wybodaeth am y farchnad lafur. Mae Emsi yn 'crynhoi' data o'r hysbysebion swyddi a wneir gan bob un o'r prif safleoedd recriwtio ac o ganlyniad gellir cynhyrchu gwybodaeth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Er nad yw effaith lawn y feirws wedi'i phennu eto, daeth tueddiadau clir i'r amlwg wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen. Cyn dechrau'r pandemig, roedd nifer yr hysbysebion swyddi yn cynyddu ar y cyfan o gymharu â 2019; fodd bynnag, bu gostyngiad sylweddol ac amlwg rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020, sy'n cyd-ddigwydd â lledaeniad y feirws (fel y dangosir yn ffigur 1 isod). Er bod y rhan fwyaf o sectorau wedi gweld gostyngiad mewn swyddi yn ystod y camau cynnar, nododd rhai rolau gynnydd, er enghraifft, nyrsys, gweithwyr gofal a gofalwyr cartref, gyrwyr faniau, cynorthwywyr addysgu a glanhawyr. Mae'r graff hefyd yn dangos cynnydd sylweddol mewn hysbysebion swyddi i mewn i haf 2020, gan adlewyrchu mwy o optimistiaeth ymhlith cyflogwyr ar yr adeg honno. Yn fwy diweddar, mae prinder sgiliau'n ymddangos yn gyffredin, ac mae'n ymddangos bod llawer o sectorau'n cael trafferthion recriwtio'n gyson gan nad oes gan ymgeiswyr sgiliau arbenigol a phrofiad perthnasol yn aml.

Ffigur 1: Nifer yr hysbysebion swyddi traws-sector 2016-2020 (Emsi, Ebrill 2021).



Hyfforddiant a Datblygu

I lawer o fusnesau, roedd hyfforddiant a datblygu wedi lleihau i gychwyn, yn benodol ar gyfer gweithgarwch anhanfodol, a bu newid cyffredin i ddarparu gwasanaethau ar-lein. Fodd bynnag, o fis Medi 2020, dechreuodd y ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb gynyddu, er gydag ymyriadau. Wrth symud ymlaen, rhagwelir y bydd yr angen am sgiliau digidol yn cynyddu ymhellach gan y bydd 'digideiddio' yn rhan o'r broses adfer i lawer o fusnesau, e.e. trwy awtomeiddio, roboteg a realiti rhithwir. Mae hyn eisoes yn creu heriau sylweddol oherwydd y prinder sgiliau critigol, sydd wedi'i ddwysáu ymhellach gan y pandemig. Gan ganolbwyntio ar Brentisiaethau, mae wedi bod ymrwymiad cryf gan gyflogwyr i gwblhau dysgu'n llwyddiannus. Yn sicr, cyflwynwyd anawsterau ar gyfer elfennau'n seiliedig ar gymhwysedd yn gynnar yn y pandemig a wnaeth ymestyn amserlenni cwblhau. Gallai recriwtio Prentisiaethau yn y dyfodol hefyd fod yn heriol i rai sectorau, yn enwedig o fewn llwybrau traddodiadol.

Gellir gweld crynodeb lefel uchel o'r canfyddiadau allweddol o'r ymchwili yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn Adroddiad GFL Covid-19

Sector	Prif Ganfyddiadau
Traws-sector	• Effaith ar yr economi ranbarthol ar draws y rhan fwyaf o sectorau er bod rhai yn adfer yn gynt nag eraill. • Roedd busnesau'n canolbwyntio ar 'oroesi'r storm' yn y camau cynnar ond gallant bellach weld potensial ar gyfer twf. • Sefyllfa newidiol sy'n creu ansicrwydd o ran anghenion sgiliau presennol/yn y dyfodol • Cynllun Cadw Swyddi (CCS) wedi achub swyddi ond wedi creu economi ffug. • Nid oes unrhyw ofnion uwchsgilio newydd mawr wedi'u creu, ond mae prinder sgiliau bellach yn cael eu hadrodd ar gefn heriau recriwtio. • Mae buddsoddiad mewn dysgu a datblygu wedi codi ar gyfer llawer ac mae darpariaeth gyfunol yn gyffredin. • Ymrwymiad i Brentisiaethau ond mae heriau o ran cyflawni o hyd. Mae'n ymddangos bod rhaglenni cymhelliant diweddar yn cael effaith gadarnhaol. • Ceir arwyddion pendant o optimistiaeth ar gyfer 2022/23 wedi'u hategu gan ddatblygiad brechlynnau.
Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch	• Set eang o sectorau diwydiant yr effeithiwyd arnynt yn wahanol BBaChau a busnesau sy'n gweithredu yn y maes Modurol ac Awyrfod sydd wedi dioddef fwyaf. • Mae'n ymddangos bod y sector yn adfer yn gyflymach na'r disgwyl ac mae gan lawer o fusnesau lyfrau archebu iachach ar gyfer 2022/23. • Heriwyd y sector ymhellach gan ofnion mewnforio/allforio ar ôl Brexit ynghyd ag oedi a chost uwch deunyddiau (yn enwedig dur). • Mae diswyddiadau'r Cynllun Cadw Swyddi (CCS) yn digwydd ond nid ar y lefelau a ragwelwyd i ddechrau. Yn gyffredinol, mae staff wedi dychwelyd i'w rolau swyddi ac mae rhaglenni trosi sgiliau hefyd yn helpu i drosglwyddo talent. • Mae heriau eraill bellach yn casglu momentwm gan gynnwys methdaliadau mewn cadwyni cyflenwi, costau cynyddol cyfleustodau a'r prinder byd-eang o ficrosglodion. • Mae heriau recriwtio sy'n arwain at brinder sgiliau ar draws llawer o swyddi gan gynnwys Peirianwyr Technegol a Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm a bu cynnydd hefyd mewn gofynion sgiliau gwyrdd.
Lled-ddargludyddion Cyfansawdd	• Mae'r effaith wedi bod yn gyfyngedig o'i chymharu â sectorau eraill a rhagwelir y bydd twf yn parhau trwy gymorth cynlluniau ehangu - dim diswyddiadau. • Cymerwyd camau i ymateb i'r galw cynyddol gan gwsmeriaid er mwyn osgoi prinder, ond mae prinder byd-eang o ran deunyddiau crai yn y gadwyn gyflenwi yn creu heriau. • Mae cysylltedd cyflym a thechnoleg feddygol yn sbarduno twf. • Mae heriau recriwtio oherwydd prinder sgiliau ar draws y sector gan gynnwys Peirianwyr Technegol a swyddi lefel is. • Mae cost gynyddol cyfleustodau yn peri pryder o fewn y sector y gallai materion waethgu heb ymyrraeth.

Adeiladu	• Anghysondeb wrth i rai busnesau barhau i weithredu ac eraill gau (yn y cyfnod cynnar).
	• Roedd y sector wedi'i atal ar y dechrau wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu hasesu/gweithredu.
	• Mae niferoedd sylweddol wedi manteision ar gymorth gan y llywodraeth (CCS/CCE) er bod y rheini ar ffyrlo ar y cyfan wedi dychwelyd i weithio.
	• Roedd heriau yn y cyfnod cynnar wrth geisio dod o hyd i gyfarpar diogelu personol a deunyddiau (yn benodol o dramor).
	• Ymddengys fod y sector yn adfer yn gyflymach na'r disgwyl er bod y llif gwaith yn y dyfodol yn bryder mawr (mae'n cael ei gaffael trwy'r sector cyhoeddus)
	• Wedi Brexit, mae busnesau wedi gweld cryn gynnydd ym mhris deunyddiau ac mae oedi o ran danfoniadau yn gyffredin.
	• Llawer llai o ddiswyddiadau na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ac mae llawer o gyflogwyr yn recriwtio. Mae heriau sgiliau yn cynyddu ac mae'r sector yn ei chael hi'n anodd recriwtio i ystod eang o rolau.
Creadigol	• Roedd effaith sylweddol ar draws y sector ar y dechrau gyda'r rhan fwyaf o staff ar ffyrlo.
	• Mae adferiad yn gadarnhaol gyda thwf yn y diwydiant Teledu a Ffilm, a amlygir trwy nifer gynyddol o gynyrchiadau (neu rai sydd yn yr arfaeth).
	• Adroddwyd am brinder sgiliau ar gyfer nifer o rolau o fewn y sector, gan gynnwys criw cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu.
	• Nifer uchel y cynyrchiadau yn y rhanbarth sy'n effeithio ar argaeledd a chost gynyddol adnoddau fel Tryciau Ffilm.
	• Datblygu a chyflwyno prentisiaeth ôl-gynhyrchu newydd a rennir.
	• Dim tanddefnyddio sgiliau a mwy o gynhyrchiant yn y gweithlu, er bod pryderon wedi codi ynghylch y diwylliant gwaith 24/7 sy'n datblygu.
Technoleg Ddigidol a Galluogol	• Gwydnwch yn y sector gan fod busnesau wedi addasu'n dda yn gyffredinol.
	• Roedd rhai busnesau'n wynebu heriau yn y camau cynnar ond roedd eraill yn profi ond ychydig o darfu.
	• Mae BBaChau a busnesau Tech newydd wedi cael eu bwrw'n galed ond bu twf mewn Technoleg Ariannol a Seiber
	• Bydd digideiddio yn rhan bwysig o'r broses adfer ar gyfer diwydiannau eraill, gan adlewyrchu natur 'alluogol' y sector.
	• Mae'r pandemig wedi cyflymu'r galw am sgiliau digidol sy'n ddymunol iawn, ac mae llawer o fusnesau'n gobeithio recriwtio.
	• Mae'n ymddangos bod cyflogau ar gynnydd ac mae darpar recriwtiaid mewn sefyllfa dda i drafod telerau ac amodau.
	• Mae heriau sgiliau sylweddol yn dod i'r amlwg a allai gyrraedd pwynt enbyd.
Economi Sylfaenol Ddynol: (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)	• Effaith gyfyngedig ar lefelau staffio ac eithrio Gofal Plant.
	• Mwy o recriwtio drwy gydol y pandemig yn y meysydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg.
	• Heriau o ran asesu cymhwysedd dysgwyr yn y gwaith sy'n arwain at ddatblygu offer lliniaru.
	• Argyfwng recriwtio cynyddol yn y maes Gofal Cymdeithasol gyda llawer o ddarparwyr yn methu recriwtio a chadw gweithlu digonol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.
	• Prinder gofal plant hirdymor posibl gyda datgofrestru gwarchodwyr plant a chau lleoliadau.

	• Cafwyd ymateb cadarnhaol i e-ddysgu a'r hyblygrwydd mae'n ei roi o ran oriau gwaith ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau.
Economi Sylfaenol Ddynol: (Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth)	• Roedd effaith sylweddol ar draws y sector gyda'r rhan fwyaf o staff ar ffyrlo ar y dechrau. • Cynnydd mewn ymddiswyddiadau wrth ofyn i staff ddychwelyd i'r gweithle o ffyrlo. • Mae'r cynllun ffyrlo hyblyg wedi'i ddefnyddio i gylchdroi staff a cheisio atal sgiliau rhag dirywio. • Cynnydd cyffredinol mewn cyflogau ar draws y sector Lletygarwch wedi'i arwain gan gyfraddau cyflog sylweddol uwch ar gyfer Cogyddion a staff Arlwyio na chyn y pandemig. • Nifer gyfyngedig o ddiswyddiadau pan ddaeth ffyrlo i ben a llawer llai na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau. • Heriau recriwtio a phrinder nifer o sgiliau oherwydd effaith gyfunol Covid-19 a Brexit.

CRYNODEBAU SECTOR

DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH

Disgrifiad o'r sector:

Mae gan DGU draddodiad hir yn ne-ddwyrain Cymru ac erbyn hyn mae nifer o gyflogwyr uwch-dechnoleg cryf wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Mae'r sector yn defnyddio prosesau a thechnoleg newydd arloesol i greu cynhyrchion â gwerth ychwanegol, er enghraifft yn y maes awyrofod, moduro a fferyllol, ac mae'n cynnwys is-sectorau eraill megis cynhyrchu bwyd, lled-ddargludyddion cyfansawdd a pheirianeg trafnidiaeth.

Effaith Busnes Gyffredinol:

Mae DGU yn cwmpasu set eang o sectorau diwydiant, y mae'n ymddangos yr effeithir arnynt mewn ffyrdd gwahanol. Yn y camau cynnar, adroddwyd y byddai effaith Covid-19 yn sylweddol (yn enwedig ar gyfer BBaChau) gyda llawer o fusnesau angen ailstrwythuro. Fodd bynnag, gyda chyflwyno ymyriadau cadarnhaol, er enghraifft, mesurau cadw pellter cymdeithasol a gweithredu profion llif unffordd, sicrhawyd bod staff yn gallu dychwelyd i'r gwaith. Roedd yn ymddangos mai'r sectorau Awyrofod a Modurol oedd wedi'u bwrw galetaf, gyda Deunyddiau a Dur yn dilyn. Gwnaeth Trydan a Nwyddau Gwyn wynebu heriau ond mae'r rhain yn debygol o adfer yn gyflymach. Roedd yr effaith ar weithgynhyrchu gofal iechyd yn fwy cyfyngedig ac, yn wir, profodd rhai busnesau dwf. I ddechrau, adroddwyd y gallai nifer y diswyddiadau fod yn sylweddol, ond i lawer, ni ddigwyddodd hyn i'r lefelau a ragwelwyd. Yn wir, roedd canfyddiad cyffredinol fod busnesau Cymru'n 'bownsio'n ôl' yn gynt na rhai dros y ffin yn Lloegr er bod absenoldeb staff yn lleihau lefelau cynhyrchiant i rai busnesau. Ar gyfer 2022, mae llyfrau archebion yn edrych yn iach i lawer o fusnesau, ac mae rhai wedi nodi heriau o ran cadw i fyny â'r galw ac mae'n ymddangos bod optimistiaeth yn tyfu ar gefn llwyddiant brechlynnau. Byddai'n deg dweud bod llawer o fusnesau'n dal i brofi heriau ar gefn Brexit, methdaliadau yn y gadwyn gyflenwi, argaeledd sglodion lled-ddargludyddion, costau cynyddol deunyddiau a chyfleustodau (yn enwedig nwy), er nad yw'r rhain o reidrwydd yn gysylltiedig â Covid-19.

Lefelau staffio a recriwtio:

- Manteisiwyd ar y Cynllun Cadw Swyddi (CCS) mewn niferoedd mawr i ddechrau. Creodd y CCS ddarlun byrdymor ffug o bositifrwyrdd, er bod croeso mawr i'r cynllun. O fis Medi 2020 ymlaen, dychwelodd staff yn gyffredinol o ffyrlo; fodd bynnag, roedd rhai wedi dychwelyd yn rhan-amser neu wedi dod o hyd i gyflogaeth mewn mannau eraill.

- Manteisiodd llawer o fusnesau (BBaChau yn bennaf) ar gefnogaeth y Gronfa Cadernid Economaidd (CCE) a Banc Datblygu Cymru, ac roedd hi'n ymddangos bod modd manteisio ar y rhain yn haws o gymharu â mentrau cyfatebol yn Lloegr. Fodd bynnag, soniodd rhai cyflogwyr am broblemau o ran cymhwysedd ynghyd â phryderon y cafodd y gronfa ei gordanysgrifio'n gyflym iawn.
- Bu'n rhaid cynnal amrywiaeth o ymyriadau i sicrhau y gallai staff ddychwelyd i'r gwaith, megis mesurau cadw pellter cymdeithasol, sifftiau ar wahanol adegau, dim desgiau poeth, defnydd o sgriniau, systemau unffordd a chyflwyno profion llif unffordd. Gwnaeth defnyddio'r ymyriadau hyn sicrhau y gallai gwaith cynhyrchu barhau.
- Roedd rhewi recriwtio yn gyffredin yn y camau cynnar (oni bai bod rolau'n arbenigol neu'n anodd eu llenwi). Fodd bynnag, o fis Medi 2020 roedd arwyddion pendant bod recriwtio'n dechrau codi stêm.
- Cafwyd diswyddiadau mewn cwmnïau, ond yn gyffredinol nid oedd y rhain ar y lefelau a ofnid i ddechrau. Adroddwyd hefyd bod rhai rolau wedi'u dileu oherwydd awtomeiddio o fewn y sector neu hyd yn oed oherwydd ofnau'n gysylltiedig â Brexit yn hytrach nag effaith y pandemig.
- Gallai staff a roddwyd ar ffyrlo yn flaenorol barhau i fod mewn perygl o ddiswyddiadau yn y dyfodol, a rolau sgiliau isel a chyflog isel a welodd yr effaith fwyaf h.y. gweithredwyr llawr siop neu rolau gweinyddol, a allai gyfrif am 70% o golledion (er y byddai llawer ohonynt ar sail wirfoddol).
- O fis Medi 2021, adroddwyd bod llawer o fusnesau yn awyddus i recriwtio i ystod eang o rolau swyddi a nodwyd yn fwy rheolaidd bod prinder sgiliau yn her oherwydd diffyg ymgeiswyr o safon, yn arbennig peirianwyr technegol neu hyd yn oed yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm.

Y galw am sgiliau ac anghyfyddiad:

- Adroddodd cwmnïau ar newid i weithio o bell ar gyfer llawer o swyddi, a greodd heriau bach i staff e.e. wrth ddefnyddio rhaglenni meddalwedd fel 'Teams', 'Zoom' a 'Skype'.
- Mae'r sector wedi gweld gweithwyr yn pontio rhwng sectorau i gadw eu set sgiliau/cyflogaeth; er enghraifft, peirianwyr Awyrofod wedi'u dadleoli yn cael eu cyflogi mewn rolau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.
- Mae llawer o offer ffatri hanfodol yn cael ei brynu (a'i wasanaethu) dramor. Yn aml nid yw peirianwyr gwasanaeth medrus yn lleol, ac felly, gallai gofynion atgyweirio a chynnal a chadw fod wedi arwain at heriau sylweddol o ran cynhyrchiant, yn enwedig oherwydd cyfyngiadau teithio. Gellir nodi ac atgyweirio rhai diffygion yn rhithwir ac mae'r angen am Dechnoleg Ddigidol a Realiti Rhithwir/Estynedig yn bwysig yn hyn o beth.
- Yn sicr, cafwyd arallgyfeirio i feysydd eraill yng nghyfnod cynnar y pandemig e.e. gweithgynhyrchu cyfarpar diogelu personol, ac mae cwmnïau wedi teimlo dan orfodaeth i 'wneud y peth iawn'. Mae enghreifftiau da yn cynnwys gweithgynhyrchu hylif diheintio dwylo, masgiau wyneb ac anadlyddion. Yn y cyd-destun hwn, daeth heriau sgiliau i'r amlwg; er enghraifft, wrth ddefnyddio offer newydd.
- Roedd rhai busnesau wedi prynu offer arbenigol a ddileodd yr angen am rywfaint o brosesu cadwyn gyflenwi, ac mae hyn wedi creu heriau uwchsgilio. Nodwyd bod sgiliau meddal a sgiliau cyd-drafod yn bwysig nawr ac yn y dyfodol, yn benodol wrth gytuno ar delerau gyda chwsmeriaid. Adroddwyd hefyd y bydd sgiliau arwain cryf yn hanfodol i symud trwy'r cyfnod heriol a allai fod o'n blaenau.

Hyfforddiant Cyflogwyr:

- Yn gyffredinol cafodd cyllidebau ar gyfer dysgu a datblygu eu cwtogi yn ystod haf 2020 os nad eu rhewi'n llwyr. Aeth peth hyfforddiant yn ei flaen ond roedd hwn yn fwy 'hanfodol i'r busnes' ac fe'i cyflwynwyd dros y rhyngwyl.
- Roedd rhai busnesau yn disgwyl i'r staff hynny oedd ar ffyrlo barhau â gweithgareddau dysgu a datblygu. Daeth cwmnïau hefyd yn fwy dibynol ar yr isadeiledd technoleg/band eang cyflym, oedd yn broblematig i rai mewn ardaloedd gwledig.

- O ddiwedd 2020, roedd yn ymddangos bod y sefyllfa yn dechrau newid oherwydd adroddwyd bod busnesau wedi dechrau ailfuddsoddi mewn hyfforddiant (yn canolbwyntio ar ofynion busnes craidd yn bennaf) a dechreuodd ymholiadau newydd i'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (RhSH) gynyddu.
- Mae darpariaeth hyfforddiant cyfunol wedi dod yn fwy cyffredin, er bod darpariaeth wyneb-yn-wyneb wedi cynyddu gydag ymyriadau'n cael eu defnyddio'n rheolaidd i sicrhau bod dysgwyr/gweithwyr yn cael eu cadw'n ddiogel.

Prentisiaethau / DSW arall:

- Mae Prentisiaethau'n uchel eu parch ac adroddwyd yn rheolaidd bod Prentisiaid wedi'u rhoi ar ffyrlo yn y camau cynnar, er bod rhai wedi'u cadw ac yn parhau â'u cyflogaeth a'u dysgu mewn modd rhithwir. Roedd rhai busnesau i'w gweld yn amharod i ymrwymo i raglenni newydd ond ymdrechasant i gwblhau'r dysgu a oedd eisoes wedi dechrau.
- Ymddengys fod nifer y Prentisiaid ar ffyrlo wedi gostwng yn sylweddol o hydref 2020. Roedd bwriad hefyd i recriwtio Prentisiaid ychwanegol i fynd i'r afael â phrinder. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y ddarpariaeth cyrsiau llawn amser o fewn sefydliadau Addysg Bellach yn parhau'n sefydlog.
- Bu modd bwrw ymlaen ag elfennau o'r gwaith i gyflawni'r fframwaith megis sgiliau allweddol ac elfennau sy'n seiliedig ar wybodaeth. Fodd bynnag, cafwyd heriau amlwg gyda'r elfennau ymarferol sy'n seiliedig ar gymhwysedd (NVQ) ac asesu. Yn y cyd-destun hwn, bu rhanddeiliaid yn cydweithredu ac yn datblygu datrysiadau.
- O fis Medi 2021, roedd tystiolaeth bod y nifer a dderbyniwyd i Prentisiaethau yn cynyddu a'u bod ar lefelau uwch nag ym mis Medi 2020. Mae rhanddeiliaid hefyd yn ymddangos yn obeithiol y gallai'r nifer a dderbynnir wella yn 2022, a fyddai'n cael ei ategu gan lefel y diddordeb cynnar a grëwyd trwy ymgyrchoedd marchnata ac estyniadau i'r Rhaglen Cymhellion Prentisiaeth.
- Mynegwyd cefnogaeth i gadw - nid lleihau - cyllid ac adroddwyd awydd i ailgyflwyno rhaglenni carlam ynghyd â diddordeb cynyddol mewn modelau Prentisiaeth a Rennir.

LLED-DDARGLUDYDDION CYFANSAWDD

Disgrifiad o'r sector:

Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yw'r dechnoleg sy'n sail i lawer o gynhyrchion a meddalwedd technoleg uwch heddiw, gan gynnwys ffonau clyfar, synwryddion, a chyfathrebu ffeibr optig. Maent yn gweithredu ar gyflymder llawer uwch na'r lled-ddargludyddion traddodiadol sy'n seiliedig ar silicon ac maent yn cynnig nodweddion ffotonig a ddefnyddir mewn amrywiaeth eang o dechnolegau synwryddion a chyfathrebu optig. Maent yn elfen hanfodol o dechnolegau newydd, o gysylltedd 5G i awtomeiddio diwydiannol a cherbydau di-yrwr. Mae'r rhanbarth yn cynnwys cyflogwyr sector mawr sydd wedi'u lleoli ar hyd coridor yr M4 (sef IQE, Nexperia, SPTS a Microchip).

Effaith Busnes Gyffredinol:

Roedd yr effaith yn llai sylweddol nag ar sectorau eraill. Effeithiwyd ar weithrediadau cynhyrchu rywfaint yn y cyfnodau cynnar i rai busnesau, ond doedd dim i gyfiawnhau pryder sylweddol. Mae normalrwydd wedi'i adfer yn gyflym, ac mae'n ymddangos bod y sector yn profi twf. Yn wir, mae'r cynnydd yn yr angen am gysylltedd cyflym iawn a thechnoleg feddygol i'w gweld yn gweithredu fel sbardun i dwf yn sgil y pandemig. Llwyddodd busnesau i aildechrau gweithredu'n agos at y lefel gynhyrchu arferol ers cyflwyno ymyriadau cadarnhaol, gan gynnwys newid patrymau sifftiau, cael gwared ar 'ddegiau poeth', mesurau cadw pellter cymdeithasol, rheolaethau 'mynediad i safle' llymach gyda delweddu thermol, systemau unffordd a gorsafoedd glanhau. Mae cadwyni cyflenwi byd-eang wedi ymateb yn gyflym i atal prinderau ond mae'r pandemig, ynghyd â chyfyngiadau masnachu, wedi creu cyfyngiadau cyflenwi yn y sector lled-ddargludyddion ehangach sydd wedi arwain at brinder deunyddiau crai a chydrannau. Mae'r materion cyflenwi hyn wedi cynyddu ac maent bellach yn creu heriau cynhyrchu ehangach ar draws y sectorau Modurol ac Awyrfod.

Rhagwelir y bydd y sector yn tyfu'n sylweddol dros y 12 mis nesaf, ac mae angen strategol i recriwtio i ystod eang o rolau. Mae'n destun rhywfaint o bryder bod y sector eisoes yn ei chael yn anodd recriwtio i rai swyddi ac mae heriau sy'n gysylltiedig â sgiliau eisoes yn dod i'r amlwg, yn enwedig o ystyried y cyfleoedd yn dilyn cymryd busnesau drosodd a chynigion ehangu diwydiant. Fel llawer o fusnesau gweithgynhyrchu, mae'r sector hefyd yn nerfus am gost gynyddol cyfleustodau. Problem fyd-eang yw hon a allai olygu bod angen ymyrraeth gan Lywodraeth y DU i sicrhau y gall y sector barhau i gystadlu â chystadleuwyr yn UDA a'r Dwyrain Pell.

Lefelau staffio a recriwtio:

- Adroddwyd am brinder staff gan rai yng nghyfnod cynnar y pandemig wrth i gyflogeion gael eu gorfodi i hunanynysu ac eraill gael eu rhoi ar ffyrlo trwy Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth. Fodd bynnag, prin oedd yr angen i fanteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi yn gyffredinol.
- Roedd y rhai ar ffyrlo (mewn niferoedd bach) yn tueddu i fod yn 'weithredwyr' â sgiliau a chyflog is. Mae hyn wedi arwain at heriau bach i rai gan fod patrymau sifftiau wedi gorfod cael eu diwygio i sicrhau parhad cynhyrchu. Yn gyffredinol, ni fu angen i'r sector fanteisio ar gyllid cymorth y Llywodraeth a chafodd y rhai a wnaeth geisiadau am hwn broblemau o ran cymhwysedd.
- Gwnaeth y sector gynnal cymysgedd o weithio gartref a phresenoldeb drwy gydol y pandemig gyda llawer o rolau swyddfa yn parhau i weithio gartref.
- Mae'n ymddangos na ddilëwyd unrhyw swyddi ac mae cyflogwyr yn hynod obeithiol y byddant yn gallu cadw staff i'r dyfodol. Yn wir, daeth yn amlwg fod y sector wedi blaenoriaethu recriwtio gyda busnesau mawr yn penodi staff i rolau peirianwyr a gweithredwyr (y mae rhai ohonynt yn debygol o symud ymlaen i raglenni Prentisiaeth).
- Er bod angen parhaus i recriwtio i ystod eang o swyddi, mae tystiolaeth bod recriwtio yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer peirianwyr technegol gan fod y rolau hyn yn aml yn anodd eu llenwi.
- Mae problemau recriwtio sylweddol yn datblygu i lawer o fusnesau gan eu bod yn aml yn ei chael yn anodd llenwi swyddi gwag gyda staff â sgiliau a chymwysterau addas. Mae hyn yn creu her sgiliau i'r sector ac mae busnesau'n adrodd yn rheolaidd am broblemau ynglŷn â phrinder sgiliau a thalent i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Y galw am sgiliau ac anghyfatebiad:

- Mae'n annhebygol bod sgiliau staff ar ffyrlo wedi dirywio gan nad oeddent ar ffyrlo yn ddigon hir. Fodd bynnag, roedd busnesau yn barod i gyflwyno sesiynau ailgynefino ar gyfer rhai gweithredwyr a oedd yn dychwelyd.
- I ddechrau, adroddodd cwmnïau am newid i weithio o bell ar gyfer llawer o swyddi a oedd yn creu heriau sgiliau i rai staff e.e. wrth ddefnyddio rhaglenni meddalwedd fel 'Teams', 'Zoom' a 'Skype'. Fodd bynnag, o ystyried natur fyd-eang busnesau, roedd llawer o staff eisoes yn gyfarwydd â defnyddio'r pecynnau hyn, gyda'r sgiliau perthnasol.
- Gwnaeth Covid-19 gryfhau pwysigrwydd technegwyr atgyweirio a chynnal a chadw, set sgiliau nad yw ar gael yn lleol yn aml. Gallai offer diffygiol fod wedi cael effaith sylweddol ar gynhyrchiant, yn enwedig os oes angen i beirianwyr fynd i safleoedd yn ffisegol o dramor. Yn y cyd-destun hwn, amlygwyd Technoleg Ddigidol a Realiti Rhithwir/Estynedig.
- Cafodd rhaglenni pontio eu datblygu a'u darparu i uwchsgilio recriwtiaid newydd o sectorau gweithgynhyrchu ehangach. Mae hyn wedi golygu bod y sector wedi gallu uwchsgilio unigolion y gallai'r sefyllfa fod wedi effeithio'n andwyol arnynt trwy ddiswyddo neu lai o oriau, er enghraifft, gan fusnesau Awyrofod neu Fodurrol.

Hyfforddiant Cyflogwyr:

- Ni nodwyd unrhyw ddarlun clir yn y cyfnod cynnar. Awgrymodd rhai cyflogwyr fod hyfforddiant a datblygiad wedi parhau trwy ddulliau ar-lein (sydd wedi bod yr arfer erioed) tra bod cyflogwyr eraill wedi adrodd bod cyllidebau wedi'u rhewi a bod yr holl hyfforddiant anhanfodol wedi dod i ben.

- Mae sesiynau 'gwirio' rheolaidd hefyd wedi'u rhoi ar waith gyda'r staff sydd ar ffyrlo.
- Roedd y duedd gyffredinol tuag at ddarpariaeth ar-lein ar gyfer hyfforddiant hanfodol. Os oedd angen hyfforddiant wyneb-yn-wyneb, rhoddwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith a defnyddiwyd Cyfarpar Diogelu Personol; adroddodd y sector ddealltwriaeth gref o ran sut y gellid darparu hyfforddiant yn ddiogel.
- Cynyddodd yr angen am ddarpariaeth iechyd a diogelwch ar-lein a chafodd hyn ei gyflwyno i staff (a ddarparwyd drwy Make UK).
- Cyn hir, adferodd dysgu a datblygu ac mae hyn bellach yn cael ei ddarparu drwy ddulliau cyfunol (er bod darpariaeth wyneb-yn-wyneb yn digwydd gydag ymyriadau). Mae yna ddiwylliant cadarnhaol o ddysgu a datblygu ar draws y sector ac ystyrir sgiliau'n hanfodol i fusnesau nawr ac i'r dyfodol.

Prentisiaethau / DSW arall:

- Mae cyflogwyr yn gwneud cynnydd gyda'u rhaglenni Prentisiaeth (os ydynt ar waith) ac nid ydynt wedi gorfod rhoi prentisiaid ar ffyrlo. Yn y cyfnodau cynnar, roedd prentisiaid yn gweithio gartref yn rheolaidd a newidiodd y dull i ar-lein gyda 'gwiriadau' rhithwir rheolaidd wedi'u cyflwyno. Roedd ymrwymiad cryf i gwblhau prentisiaethau ar y rhaglen ac i weld twf yn y dyfodol.
- Bu cynnydd da gydag elfennau o'r fframwaith Prentisiaeth megis sgiliau allweddol a gofynion sy'n seiliedig ar wybodaeth. Fodd bynnag, cafwyd heriau gyda'r elfennau ymarferol sy'n seiliedig ar gymhwysedd (NVQ) ac asesu. Gwnaeth cyflogwyr roi mesurau ar waith i sicrhau y gallai dysgu barhau h.y. gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (yn enwedig fisoraau).
- Gwnaeth y sector ymholiadau petrusgar i raglen Kickstart yr Adran Gwaith a Phensiynau a thrwy sefydliad cyfryngol porth sefydledig. Fodd bynnag, daeth busnesau i'r farn yn fuan nad oedd y fenter yn cyd-fynd ag anghenion y diwydiant.
- Roedd awydd cryf i fanteisio ar gyfleoedd a gyflwynwyd trwy'r Rhaglen Cymhellion Prentisiaeth, y Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (RhCDP) a'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (RhSH).
- Mae cyflogwyr yn recriwtio yn ôl fframweithiau peirianeg cyffredinol ond mae awydd cynyddol i wneud cymwysterau (a fframweithiau) yn fwy perthnasol i'r sector Lled-ddargludyddion Cyfansawdd. Yn y cyd-destun hwn, mae gwaith ar y gweill ac, o ganlyniad, mae disgwyliad i lefelau gynyddu yn y dyfodol yn lle gostwng.

ADEILADU

Disgrifiad o'r sector:

Mae'r diwydiant adeiladu yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni economi fywiog ac amgylchedd o ansawdd. Mae swyddi adeiladu yn amrywio o rai traddodiadol 'ar y safle' i swyddi mwy proffesiynol sy'n seiliedig ar wasanaethau megis cynllunwyr, penseiri a syrfewyr. Gan symud ymlaen, mae'r sector hefyd yn rhagweld y bydd y gweithle'n cael ei ddigideiddio ymhellach. Mae tua dwy ran o dair o'r gweithlu yn cael eu cyflogi fel crefftwyr a gweithredwyr medrus gyda thraean arall yn cael ei gyflogi mewn rolau rheoli, proffesiynol a swyddfa.

Effaith Busnes Gyffredinol:

Mae'n ymddangos bod yr effaith wedi amrywio ar draws y sector. Parhaodd rhai busnesau i weithredu ond caewyd eraill yn ystod cyfnod cynnar y pandemig. Yn gyffredinol, daeth y sector i stop yn ystod y ddwy wythnos gyntaf ar ôl cyflwyno'r cyfnod clo cyntaf wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu hasesu. Roedd cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol yn her gynnar ynghyd â dod o hyd i ddeunyddiau adeiladu trwy gadwyni cyflenwi ac yn benodol yr hyn a gyflenwir o dramor. Yn fwy diweddar, mae'n ymddangos bod y mesurau a roddwyd ar waith gan fusnesau yn gweithio'n dda, er enghraifft, gwisgo gorchuddion wyneb a chadw pellter o 2m; fodd bynnag, gall cadw pellter cymdeithasol fod yn broblematig oherwydd natur y sector a'r angen am drefniadau iechyd a diogelwch llym / gwaith llaw, a all effeithio'n negyddol ar gynhyrchiant. Mae'n ymddangos

bod y 'llif gwaith' adeiladu yn bryder mawr i'r diwydiant gan fod llawer o fusnesau'n ansicr ynghylch gwaith yn y dyfodol, yn enwedig yr hyn a gaffaelwyd trwy awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai contractwyr yn brysur trwy gydol 2022. Mae'n ymddangos bod cost gynyddol deunyddiau adeiladu yn her fawr arall, yn enwedig brics, plastr, sment, gwydr a chladin. Mae Brexit wedi dwysáu'r broblem hon ymhellach ac mae'n bwysig tynnu sylw at yr her o 'brisio' prosiectau gyda chost gynyddol dur yn unig. I raddau helaeth mae'r sector yn gweithredu 'o'r llaw i'r geg' ac, o ganlyniad, bydd llif arian yn her sylweddol; er enghraifft, yr angen i dalu costau am ddeunyddiau a llafur cyn derbyn incwm ar gyfer gwaith. Ymddengys hefyd y bu masnachwyr adeiladwyr yn amharod ar y dechrau i gynyddu lefelau credyd. Daeth yn amlwg bod y sector yn ei chael hi'n anodd recriwtio i rai swyddi ac mae heriau sy'n gysylltiedig â sgiliau'n cyflymu a fydd yn parhau drwy gydol 2022. Mae rhai busnesau hefyd yn dod yn fwy nerfus am gostau cynyddol cyfleustodau.

Lefelau staffio a recriwtio:

- Gwnaeth llawer o fusnesau ddefnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi a rhoi staff ar ffyrlo lle nad oedd eraill wedi teimlo'r angen i wneud hyn. O fis Medi 2020, ymddengys fod staff ar ffyrlo yn dychwelyd i weithio gyda llawer o'r sector yn ôl yn y gwaith yn llwyr erbyn mis Mawrth 2021. Nodwyd trafndiaeth gyhoeddus ddiogel fel ffactor wrth ddychwelyd gweithwyr i'w gwaith gan y byddai angen i gyflogeion deimlo'n hyderus. Nid oedd llawer o gysondeb o ran rolau a roddwyd ar ffyrlo er bod rolau gweinyddol a'r rhai sy'n canolbwyntio ar werth cymdeithasol/ymgysylltu ag ysgolion yn fwy tebygol o fod ar ffyrlo na gweithwyr safle.
- Gan gyfeirio at Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru, ymddengys mai'r sector adeiladu oedd y buddiolwr mwyaf o bell ffordd (yn enwedig microfusnesau a BBaChau).
- Roedd rhai busnesau wedi ceisio recriwtio i swyddi yn ystod y pandemig ac roedd eraill wedi gorfod diswyddo pobl. Fodd bynnag, mae lefel y diswyddiadau yn ymddangos yn is na'r disgwyl ar y dechrau ac ar ôl cau'r Cynllun Cadw Swyddi.
- Ers mis Medi 2020, mae pryderon ynghylch Brexit wedi dod i'r amlwg eto a allai effeithio hefyd ar nifer y swyddi a gaiff eu dileu yn y dyfodol. Ym mis Mawrth 2021, roedd busnesau wedi dechrau gweld cynnydd clir ym mhrys deunyddiau adeiladu ac roedd amserlenni cyflenwi a chostau cludiant hefyd wedi cynyddu.
- Nid yw'r gweithlu'n barhaol a gallai'r diffyg sicrwydd o ganlyniad i Covid-19 greu sefyllfa lle mae staff yn chwilio am rolau mwy diogel y tu allan i'r sector. Fodd bynnag, ym mis Medi 2021 adroddwyd bod unigolion yn fwy tebygol o ddod yn ôl i'r sector oherwydd y codiadau cyflog a gafwyd oherwydd y galw am lafur medrus.
- Mae'r sector yn ei chael hi'n anodd recriwtio i swyddi penodol, er enghraifft, bricwyr, sych-leinwyr, rolau gwresogi a phlymio, rheolwyr prosiect, syrfewyr meintiau, peirianwyr sifil a gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm.

Y galw am sgiliau ac anghyfyddiad:

- Adroddodd cwmnïau newid i weithio o bell ar gyfer llawer o swyddi a greodd heriau sgiliau bach i rai staff wrth ddefnyddio rhaglenni meddalwedd fel 'Teams', 'Zoom' a 'Skype'.
- Mae sgiliau Technoleg Ddigidol yn bwysicach gyda'r angen i newid arfer e.e. cofrestru a mynediad safle awtomataidd (olion bysedd, sganio retina a gwirio tymheredd).
- Mae sgiliau hollbwysig sy'n ymwneud ag ymrwmiadau carbon sero, er enghraifft ôl-osod, nawr yn cael mwy o sylw, hyd yn oed os nad yw hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig. Ymddengys fod her sylweddol ar y gorwel o ran y sgiliau gofynnol i fodloni dyheadau sero net. Mae sgiliau sy'n gysylltiedig ag adeiladu oddi ar y safle, ôl-osod a gosod paneli solar yn dod yn fwyfwy pwysig. Effeithiwyd ar osodiadau paneli solar hefyd gan Brexit oherwydd argaeledd llafur mudol.
- Mae sgiliau meddal yn dod yn bwysicach oherwydd yr angen cynyddol i gael sgysiau gonest gyda chadwyni cyflenwi a chwsmeriaid (wrth roi dyfynbris ar gyfer gwaith). Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â'r heriau a grëwyd trwy gostau cynyddol deunyddiau adeiladu (ac oedi wrth gyflawni gwaith).

- Gallai darpariaeth iechyd a diogelwch hefyd newid oherwydd gweithdrefnau gweithredu newydd.

Hyfforddiant Cyflogwyr:

- I ddechrau, awgrymodd rhai cyflogwyr fod hyfforddiant wedi parhau trwy ddulliau ar-lein ond adroddodd cyflogwyr eraill fod cyllidebau wedi'u rhewi a bod yr holl hyfforddiant anhanfodol wedi dod i ben. Roedd y duedd gyffredinol tuag at ddarpariaeth ar-lein ar gyfer darpariaeth hanfodol.
- Yn fwy diweddar, mae hyfforddiant wyneb-yn-wyneb wedi aildechrau i rai busnesau ar gyfer darpariaeth nad oes angen ystafell ddosbarth ar ei chyfer e.e. hyfforddiant cyfarpar, systemau mynediad a PASMA. Adroddwyd hefyd fod ymyriadau Llywodraeth Cymru megis y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol wedi rhoi cymorth sylweddol i fusnesau i annog eu staff i ymgysylltu â dysgu a datblygu.
- Mae'r sector yn gwella'n gynt na'r disgwyl ac mae tystiolaeth bod buddsoddiad mewn hyfforddiant yn cynyddu. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau wedi adrodd bod hyfforddiant wedi'i leihau oherwydd lefelau gwaith uchel. Gallai gwariant mewn hyfforddiant leihau os bydd lefel y gwaith yn gostwng.

Prentisiaethau / DSW arall:

- Mae prentisiaethau'n uchel eu parch ar draws y sector ac adroddwyd yn rheolaidd bod Prentisiaid wedi'u rhoi ar ffyrlo yn y cyfnodau cynnar, er bod rhai wedi'u cadw ac yn parhau â'u cyflogaeth a'u dysgu mewn modd rhithwir. O fis Medi 2020, roedd Prentisiaid ar ffyrlo wedi dychwelyd i'r gwaith yn gyffredinol ac roedd eu dysgu wedi parhau.
- Ychydig iawn o swyddi prentisiaid a ddilëwyd ac roedd cyflogwyr yn ymddangos yn ymrwymedig i sicrhau bod eu prentisiaid yn cwblhau eu rhaglenni dysgu. O fis Mawrth 2021, roedd diddordeb cyflogwyr mewn Prentisiaethau wedi cynyddu'n amlwg o ganlyniad uniongyrchol i gymhellion cyllidol a ryddhawyd drwy Lywodraeth Cymru.
- Bu modd bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r fframwaith megis sgiliau allweddol ac elfennau sy'n seiliedig ar wybodaeth. Fodd bynnag, cafwyd heriau gyda'r elfennau ymarferol sy'n seiliedig ar gymhwysedd (NVQ) ac asesu.
- Yn y camau cynnar, roedd prentisiaid (diwrnod astudio) a Hyfforddeion Graddedig yn cael trafferth mynychu dosbarthiadau coleg ac roedd disgwyliad y byddai'r rhaglenni yn cymryd mwy o amser i'w cyflwyno.
- Ymddengys fod ymgysylltiad da â rhaglen Kickstart yr Adran Gwaith a Phensiynau gydag un busnes yn nodi awydd i dderbyn tua 150 o leoliadau ar draws y busnes.
- Mae diddordeb mewn Prentisiaethau Gradd a Phrentisiaethau a Rennir wedi cynyddu eto, ac mae'n ymddangos bod y sector yn awyddus i achub ar gyfleoedd os caiff y rhaglen ei hehangu yng ngolau'r Rhaglen Lywodraethu newydd. Tan hynny, adroddwyd bod y sector mewn risg o golli talent.
- Yn dilyn adolygiad Cymwysterau Cymru o'r sector, gallai fod ymgyrch i gael mwy o unigolion blwyddyn gyntaf llawn amser i ymgymryd â chymwysterau sylfaen mewn Addysg Bellach. Gellid cael gafael ar yr unigolion hyn yn y gweithle yn 2022. Mae pryder cynnar y gallai nifer fawr yn astudio'r cymwysterau newydd greu 'tagfa' a gallai fod galw mawr am gyfleoedd lleoli.

CREADIGOL

Disgrifiad o'r sector:

Mae'r Sector Creadigol yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae wedi cael ei gydnabod yn sector blaenoriaeth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau. Ar draws y wlad cyflogir dros 58,000 o bobl yn y sector, sy'n 52% yn fwy na deng mlynedd yn ôl, sy'n rhoi syniad o'i ehangiad diweddar yng Nghymru. Mae gan P-RC glwstwr o gyfryngau digidol sy'n datblygu a

diwydiant teledu a ffilm sy'n tyfu'n gyflym ac sydd wedi arwain at ddatblygu'r stiwdios drama mwyaf yn y DU. Mae'r sector wedi'i ddigideiddio'n helaeth ac mae gorgyffwrdd rhyngddo a'r sector Technoleg Ddigidol; mae rolau fel dylunio graffeg a marchnata yn gorgyffwrdd yn gynyddol â datblygu gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol a rolau digidol eraill.

Effaith Busnes Gyffredinol:

Nodwyd y cafwyd effaith sylweddol ar y sector i ddechrau gan fod gwaith cynhyrchu wedi dod i ben, lleoliadau wedi cau a'r rhan fwyaf o'r gweithlu wedi'i roi ar ffyrlo. Fodd bynnag, ymatebodd y sector yn gadarnhaol ar draws y rhanbarth gyda llawer o gynyrchiadau ffilm a theledu yn ailgychwyn dros gyfnod yr haf 2020 a dechreuodd nifer sylweddol o gynyrchiadau newydd ffilmio yng ngwanwyn 2021. Roedd llawer o ffactorau i ddechrau'n ei gwneud hi'n anodd deall effaith lawn Covid-19, gan gynnwys y ddibyniaeth ar weithwyr llawrydd yn y sector a'r ffaith fod cyfran sylweddol o'r gweithlu yn dal i fod ar ffyrlo. Fodd bynnag, adroddwyd bod gweithwyr llawrydd unwaith eto'n cael eu contractio i weithio ar gynyrchiadau, gyda llawer yn newid diwydiant o'r llwyfan i'r sgrin er mwyn alinio â thwf cynhyrchu Ffilm a Theledu yn y rhanbarth. Adroddwyd colledion refeniw yn arwain at gau cynyrchiadau i ddechrau ar draws Teledu, Ffilm, Drama, Theatr a Cherddoriaeth ac awgrymodd rhanddeiliaid y gallai gymryd dwy flynedd i'r sector adfer (yn ddibynnol ar ffactorau megis canllawiau cadw pellter cymdeithasol ac yswiriant).

Lefelau staffio a recriwtio:

- Roedd y mwyafrif o staff wedi cael eu rhoi ar ffyrlo i ddechrau, ac nid oedd yn glir faint o weithwyr llawrydd a lwyddodd i fanteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi. Cafodd rhai gweithwyr llawrydd o fewn y diwydiant Ffilm a Theledu eu heffeithio'n gadarnhaol gan y twf mewn cynyrchiadau, fodd bynnag, roedd rhai yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at arian.
- Cafodd rhai diswyddiadau eu hadrodd i ddechrau (llai na'r disgwyl) er bod nifer o staff ar ffyrlo. Fodd bynnag, barnwyd mai rolau sgiliau/cyflog is oedd yn wynebu'r perygl mwyaf e.e. Swyddfa Docynnau, a Blaen Tŷ. Dim diswyddiadau o fewn y diwydiannau Ffilm a Theledu gan fod cynyrchiadau wedi ailgychwyn.
- Nodwyd bod cefnogaeth y Llywodraeth o gymorth mawr i'r 'cwmnïau annibynnol' yn y sector. I ddechrau, nid oedd rhai sefydliadau'n gallu gwneud cais i'r Gronfa Cadernid Economaidd a nodwyd anawsterau gyda'r ceisiadau ar gyfer camau dilynol.
- Daeth recriwtio i ben i ddechrau; fodd bynnag, mae wedi ailgychwyn ar draws y rhan fwyaf o'r sector, gyda chynnydd penodol ar gyfer rhai rolau wrth i gynyrchiadau Teledu a Ffilm ailddechrau. Mynegwyd pryderon am y posibilrwydd na fyddai gweithwyr medrus ar gael yn y rhanbarth os cânt eu temtio i chwilio am waith dramor (lle mae canllawiau Covid-19 wedi caniatáu i gynyrchiadau ailddechrau'n gynharach nag yng Nghymru).
- Mae gohirio diwrnodau cofrestru a digwyddiadau castio stryd wedi cael effaith negyddol ar nifer yr artistiaid cefnogol. Mynegwyd pryderon hefyd fod datblygiad diwylliant gwaith 24/7 ar gyfer rhai rolau yn afiach ac y gallai effeithio ar iechyd meddwl a lles y gweithlu.
- Mae symudedd y gweithlu yn parhau i fod yn her gyda gofynion i'r gweithlu yrru'n aml i leoliadau gan nad yw'r rhain yn hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae'r sector yn hyderus ei fod wedi cadw gweithlu medrus, gyda rhagor o gynyrchiadau wedi'u trefnu a lleoliadau'n ailagor. Mae'r enw da a'r hygyrddedd i ddarparu cynyrchiadau llwyddiannus yn uchel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r galw'n arwain at brinder sgiliau a heriau recriwtio o fewn y gweithlu. Gallai cyfraddau cyflog cystadleuol fod wedi lleihau 'teyrngarwch' canfyddedig y gweithlu hefyd.
- Adroddwyd mwy o debygolrwydd o dalent yn cael ei recriwtio o ymhellach i ffwrdd i ddiwallu anghenion y diwydiant a llenwi'r bylchau sgiliau presennol ym mis Medi 2021.

Y galw am sgiliau ac anghyfyddiad:

- Nodwyd yn y lle cyntaf y byddai'n anodd cael dealltwriaeth lawn o'r effaith nes i'r sector cyfan ailagor. Ni nododd y diwydiannau Teledu a Ffilm unrhyw sgiliau sy'n cael eu tanddefnyddio a chynnydd mewn cynhyrchiant.
- Cyn Covid-19 adroddwyd bod argaeledd gweithlu medrus yn briodol i ddiwallu anghenion y rhanbarth. Ond mae pryderon mwy diweddar wedi eu codi gan y diwydiant Ffilm a Theledu ynghylch prinder criw cynhyrchu medrus a staff ôl-gynhyrchu.
- Roedd bylchau sgiliau a nodwyd yn gynnar yn y pandemig yn cynnwys rolau fel Cyllid, Cyfrifeg, Gweinyddu Busnes a Materion Cyfreithiol. Fel y nodwyd uchod, roedd prinder sgiliau eraill a adroddwyd yng ngwanwyn 2021 yn cynnwys rolau TGCh mewn 'Tirau Technegol' ôl-gynhyrchu a chriwiau cynhyrchu.
- Adroddwyd bod angen cronfa fwy i ddewis ohoni yn y rhanbarth ar gyfer rolau fel Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Castio, Actorion a'r rhai o gefndir Ethnig, a nodwyd bod rolau Rheolwyr Lleoliad hefyd yn arbennig o heriol i'w llenwi. Adroddwyd bod angen nifer gynyddol o reolwyr lefel-ganol yn y dyfodol a bod pryder ynghylch prinder sgiliau posibl.
- I ddechrau, adroddwyd y gallai rolau masnach medrus fel seiri coed, plastrwyr, addurnwyr a thrydanwyr gael eu colli i sectorau eraill fel Adeiladu lle mae gweithgarwch a recriwtio yn adfer yn gyflymach. Mae argaeledd rolau masnach medrus ar gyfer y sector creadigol yn parhau i fod yn her ynghyd â rolau Cerbydau Nwyddau Trwm / Cerbydau Nwyddau Mawr oherwydd prinder gyrwyr.
- Mae angen buddsoddiad o hyd mewn sgiliau meddalwedd a chaledwedd a fydd yn galluogi'r gweithlu i weithio gartref yn briodol. Mae patrymau ac oriau gwaith wedi ymestyn sy'n golygu bod angen 'cymorth technoleg' y tu allan i oriau gwaith arferol. Bydd hefyd angen i'r sector sicrhau bod gan y gweithlu sgiliau ar-lein/digidol priodol a'u bod yn ymgyswrtu'n gyson â thechnoleg newydd.

Hyfforddiant Cyflogwyr:

- Cafodd gostyngiad mewn cyllidebau hyfforddi eu gwrthbwyso gan gost is staff yn cwblhau hyfforddiant yn rhithwir.
- Mae angen cysylltedd rhagorol a chyflymder ffibr optig i gefnogi hyfforddiant o bell.
- Roedd hyfforddiant ar-lein Covid-19-benodol i gefnogi dychweliad esmwythach i gapasiti/gweithio 'arferol', h.y. diogelwch yr amgylchedd gwaith, yn gyffredin.
- Daeth lleoliadau cysgodi gwaith i ben i ddechrau; fodd bynnag, parhawyd i gyfathrebu â hyfforddeion i adolygu cyfleoedd cysgodi gwaith yn y dyfodol ar gynrychiadau sydd yn yr arfaeth.
- Mae'n ofynnol i weithwyr llawrydd gwblhau hyfforddiant lechyd a Diogelwch Covid-19-benodol cyn dychwelyd i'r gweithle, gan alluogi cynrychiadau i fod yn ddiogel.
- Mae cynlluniau i gyflawni mwy o hyfforddiant ar-lein yn y dyfodol, ond effeithir o hyd ar gyllidebau hyfforddi ac, mewn rhai achosion, nid ydynt ar gael oni bai bod modd darparu'r hyfforddiant yn rhithwir.
- Cyflwynwyd dosbarthiadau meistr ar-lein gyda Chyfarwyddwyr ac Actorion dylanwadol ar gyfer dysgwyr AU yn llwyddiannus ac arweiniodd at adborth cadarnhaol iawn. Roedd dosbarthiadau meistr pellach wedi'u cynllunio.

Prentisiaethau / DSW arall:

- Adroddwyd bod heriau o ran cadw aseswyr a darparu prentisiaethau, gan nad oedd cynrychiadau ar gael iddynt gwblhau dysgu seiliedig ar waith. Cwblhawyd asesiadau rhithwir, ac yn aml datryswyd heriau drwy ymyriadau.
- Cadarnhaodd sawl darlledwr mawr eu bwriad i beidio â recriwtio prentisiaid newydd tan fis Hydref 2021 ac y gallai'r AD sydd ei angen i gefnogi prentisiaethau gael ei leihau yn y dyfodol gan arwain at lai o sefydliadau'n fodlon cyflogi prentisiaid.
- Cynhaliwyd cefnogaeth i ddysgwyr drwy gysylltiadau dyddiol a darparwyd lefel dda o gefnogaeth drwy'r sefydliadau Addysg Bellach.

- Cafodd recriwtio prentisiaid i gynllun Prentisiaeth a Rennir gyda chylchdro lleoliadau adborth cadarnhaol gan gyflogwyr a phrentisiaid.
- Adroddwyd bod cefnogaeth y Llywodraeth trwy Kickstart, Cynlluniau Cymhelliant Prentisiaethau, a'r Cyfrif Dysgu Personol (CDP) wedi cael ei chroesawu gan y sector er bod rhywfaint o ddiffyg ymwybyddiaeth wedi'i adrodd.

TECHNOLEG DDIGIDOL A GALLUOGOL

Disgrifiad o'r sector:

Mae'r diwydiant Technolegau Digidol a Galluogol yn sector allweddol ar gyfer economi Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r sector a elwir yn TGCh yn draddodiadol, sydd bellach yn deitl henffasiwn, yn datblygu, yn dylunio ac yn gweithredu technolegau sy'n galluogi ac yn gweddnewid diwydiannau ar draws Cymru a'r rhanbarth ac yn chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio. Mae ôl troed y diwydiant yn sylweddol ac amcangyfrifir ei fod yn cyflogi tua 40,000 o bobl ar draws 3,000 o gwmnïau. Yn ogystal â hyn, mae ganddo'r lefelau cynhyrchiant uchaf ymhlith sectorau Cymru a'r ail uchaf o ran GYC fesul awr a weithir ar gyfer unrhyw ddiwydiant. Yn 2015, sgoriwyd De Cymru yn bumed mewn adroddiad gan Tech Nation am drosiant cyfartalog cwmnïau ac yn gyntaf o ran y clystyrau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU.

Effaith Busnes Gyffredinol:

Adroddwyd bod y sector yn wydn ac yn ymatebol iawn ac mae'n addasu'n dda i newid. Gwnaeth Covid-19 effeithio ar y sector i raddau amrywiol, gan effeithio'n andwyol ar rannau o'r diwydiant ond heb amharu'n hirdymor ar eraill, os o gwbl. Fel y disgwylir, y busnesau a gafodd eu bwrw galetaf oedd y BBaChau a busnesau technoleg newydd, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu'n bennaf mewn sectorau fel twristiaeth, lletygarwch a manwerthu. Parhaodd cynhyrchiant yn gyson i lawer a gwnaeth rhannau penodol o'r sector brofi twf, er enghraifft Seiberddiogelwch a Thechnoleg Ariannol. Mae busnesau wedi croesawu dulliau hyblyg o weithio (a oedd eisoes yn gyffredin yn aml) ac mae'n ymddangos bod llawer ohonynt yn ystyried a oes angen eiddo tiriog swyddfa yn y dyfodol. Mae'r argyfwng wedi creu cyfleoedd i'r gweithlu a busnesau, gyda llawer eisoes yn nodi galw cynyddol am wasanaethau. O ganlyniad, mae'r galw am sgiliau wedi cynyddu'n sylweddol gyda llawer o fusnesau'n awyddus i recriwtio. Mae sgiliau digidol yn ddymunol iawn ar hyn o bryd ac mae natur 'alluogol' y sector yn sicrhau y bydd sgiliau digidol yn rhan bwysig o'r broses adfer ar gyfer gwahanol sectorau dros y 12-24 mis nesaf. Felly, mae'n ymddangos bod cyflogau ar gynydd ac mae gweithwyr medrus mewn sefyllfa gryfach i drafod telerau ac amodau sy'n creu cryn newid ar draws y diwydiant. Mae rhai rhanddeiliaid wedi nodi bod heriau sgiliau sylweddol yn gyffredin a allai gyrraedd pwynt tyngedfennol cyn bo hir.

Lefelau staffio a recriwtio:

- Manteisiodd rhai busnesau ar y Cynllun Cadw Swyddi gan roi staff ar ffyrlo yn haf 2020. Fodd bynnag, mae'r busnesau hyn yn y lleiafrif a dychwelodd y staff yn gyffredinol i'w swyddi ar ôl y cyfnod ffyrlo. Mae rhai busnesau hefyd wedi lleihau oriau gwaith.
- Prin oedd y dystiolaeth o ddileu swyddi er yr honnir bod rhai busnesau wedi defnyddio'r pandemig fel cyfle i adolygu strwythurau sefydliadol. Yn wir, mae llawer o fusnesau yn ceisio recriwtio a thyfu. Yn gyffredinol, cynhelir gweithgareddau cynefino cwmnïau trwy ddulliau rhithwir.
- Mae gweithio gartref hyblyg bellach yn fwy cyffredin nag erioed (er bod diwylliant o weithio o bell eisoes yn bodoli) ac yn gyffredinol mae staff wedi addasu'n dda i newidiadau. Mae manteision sy'n gysylltiedig â chydbwysedd bywyd gwaith wedi dod i'r amlwg yn sicr ac mae'r rhagolygon ynghylch gweithio o bell yn edrych yn fwy hirdymor.
- Mae cyflogwyr sydd angen staff i weithio o swyddfa wedi gallu cyflwyno mesurau i sicrhau amgylcheddau gwaith diogel. Gallai hefyd fod newid cynyddol i ganolfannau galwadau rhithwir
- Mae'r pandemig yn sicr wedi cynyddu'r galw am sgiliau digidol ar draws y rhanbarth. O ganlyniad, mae'r sector wedi profi rhywfaint o 'drosiant staff' yn 2021 gan fod rhai staff wedi ceisio defnyddio

sgiliau'n well neu hyd yn oed archwilio mentrau newydd. Mae llawer o fusnesau am recriwtio unigolion â sgiliau addas y mae galw mawr amdanynt. O ganlyniad, mae darpar recriwtiaid yn sbarduno cyflogau uwch ac maent mewn sefyllfa well i drafod telerau ac amodau.

- Mae heriau hollbwysig yn dod i'r amlwg mewn perthynas â chyflenwi sgiliau a thalent a gallai'r diffyg pobl gymwys sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur ddal y sector yn ôl. Cafwyd achosion hefyd lle mae staff wedi cael eu 'potsio' gan fusnesau o fewn y sector. Gallai'r dull hyblyg o weithio y gall y sector ei gynniig a'r potensial ar gyfer cydbwysedd bywyd gwaith hefyd gefnogi'r recriwtio y bydd ei angen ar y sector.

Y galw am sgiliau ac anghyfatebiad:

- Mae cwmnïau wedi adrodd am newid i weithio o bell i lawer o swyddi a oedd yn creu heriau bach o ran sgiliau i rai staff e.e. wrth ddefnyddio rhaglenni meddalwedd fel 'Teams', 'Zoom' a 'Skype'. Fodd bynnag, o ystyried natur y sector, roedd gan staff sgiliau da ar y cyfan wrth ddefnyddio'r pecynnau hyn. Mae datblygiadau digidol wedi cynniig cyfleoedd i weithio'n fyd-eang ac, yn hyn o beth, mae cadw talent yn y rhanbarth yn bwysig er mwyn sicrhau bod unigolion yn cyfrannu at economi Cymru.
- Daeth yn amlwg bod busnesau wedi dod yn fwy agored i haciau, firysau a maleiswedd. Felly, mae'r angen am sgiliau Seiberddiogelwch (a meddalwedd) wedi cynyddu.
- Adroddwyd bod y byd academiaidd wedi bod yn destun pryder. Bu tarfu helaeth ar draws y sector addysg a fydd yn effeithio ar leoliadau swyddi a recriwtio graddedigion. Mae pryder hefyd ynglŷn â nifer y myfyrwyr sy'n symud ymlaen i Addysg Uwch. Gallai llawer o fyfyrwyr ddewis gohirio lleoedd a allai greu heriau gyda'r llif sgiliau a thalent yn y dyfodol.
- Mae Covid-19 wedi dwysau'r angen am sgiliau Seiberddiogelwch, Meddalwedd, Data, Deallusrwydd Artiffisial, Roboteg, Realiti Rhithwir, gweithrediadau o bell a chyfrifiadura cwmwl, sydd nawr yn fwy hanfodol nag erioed. Mae busnesau yn gyffredinol yn wynebu'r risg o fethu os na chaiff y problemau hyn eu datrys yn fuan.

Hyfforddiant Cyflogwyr:

- Awgrymodd rhai cyflogwyr fod hyfforddiant a datblygiad wedi parhau trwy ddulliau ar-lein tra bod eraill wedi adrodd bod cyllidebau wedi'u rhewi a bod yr holl hyfforddiant anhanfodol wedi ei atal.
- Mae'r newid cyffredinol wedi bod tuag at ddarpariaeth ar-lein ar gyfer hyfforddiant hanfodol er bod mwy o ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb wedi digwydd wrth i 2021 fynd yn ei blaen.
- Mae sgiliau i'w gweld yn sylfaenol i fusnesau. O ganlyniad, mae cyllidebau ar gyfer hyfforddiant a datblygu bellach yn cael eu darparu. Fodd bynnag mae rhai busnesau wedi dweud eu bod yn rhy brysur i ymwneud â dysgu a datblygu sefydliadol ond y byddant yn blaenoriaethu hyn pan fydd normalrwydd yn aildechrau.
- Mae cyflogwyr yn deall y gallai'r pandemig arwain at fwy o ddefnydd o ddysgu cyfunol/ar-lein ac maent yn gyfforddus ar y cyfan gyda'r dull hwn ar gyfer darpariaeth benodol. Mae darpariaeth wyneb-yn-wyneb wedi dechrau unwaith eto ar gyfer rhai busnesau (gydag ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith).
- Gallai fod newid sylweddol yn y model cyflwyno ar gyfer hyfforddiant, a ddylai ystyried gweithio gartref ac, o bosibl, ar adegau gwrthgymdeithasol. Bydd mwy o alw am ddarpariaeth fer a modiwlaid yn hytrach na'r dulliau darparu mwy traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth.
- Mae enghreifftiau o raglenni 'hyfforddiant dwys' wedi dechrau dod i'r amlwg o wanwyn 2021. Yma, mae darpar recriwtiaid yn elwa o raglen hyfforddi ddwys (12 wythnos, dyweder) cyn cael eu cyflogi gobeithio. Mae mentrau o'r fath yn aml yn targedu'r rhai sydd â gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r sector a gellid eu defnyddio fel cyfrwng i drosglwyddo pobl i rolau.

Prentisiaethau / DSW arall:

- Mae rhai busnesau'n teimlo bod nifer y bobl sy'n manteisio ar Brentisiaethau ar hyn o bryd yn eithaf isel o fewn y sector; y prif reswm am hyn yw nad yw cymwysterau ar Lefel 2 a 3 yn addas i'r

diben. Bydd angen i Fframweithiau Prentisiaeth adlewyrchu angen y diwydiant yn well; er enghraifft, Seiberddiogelwch.

- Nodwyd bod Prentisiaid wedi cael eu rhoi ar ffyrlo yn y cyfnod cynnar, er bod rhai wedi parhau â'u cyflogaeth a'u dysgu mewn modd rhithwir. Bu modd bwrw ymlaen ag elfennau o'r gwaith i gyflawni'r fframwaith, megis sgiliau allweddol ac elfennau sy'n seiliedig ar wybodaeth. Fodd bynnag, cafwyd heriau gyda'r elfennau ymarferol sy'n seiliedig ar gymhwysedd.
- Mae cau rhai swyddfeydd wedi cael effaith ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno rhaglenni Prentisiaeth, ac roedd yr oedi'n amlwg. Yn y cyd-destun hwn, gwnaeth cyflogwyr fynegi'r angen am hyblygrwydd i sicrhau y gall dysgwyr gwblhau rhaglenni.
- Mae'n ymddangos bod y sector wedi ymgysylltu â'r rhaglen Kickstart a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gydag un sefydliad Porth cymeradwy yn adrodd bod ceisiadau'n mynd rhagddynt.
- Mae angen i'r sector recriwtio sgiliau lefel uwch ac mae datblygu rhaglenni Gradd-brentisiaeth yn cynnig cyfle da, ac felly, mae angen eu cadw a'u hehangu.

ECONOMI SYLFAENOL DDYNOL: Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys

Disgrifiad o'r sector:

Mae'r Economi Sylfaenol Ddynol wedi'i hadeiladu ar y gweithgareddau sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, waeth beth fo statws cymdeithasol defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd; manwerthu a dosbarthu; ac iechyd, addysg a lles. Yn 2017, roedd y niferoedd wedi'u cyflogi yn y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd, sef y categori mwyaf priodol a ddefnyddir mewn ffynonellau data cyhoeddus, wedi cynyddu i 210,800 ar draws y rhanbarth. Yn ôl data EMSI, roedd 158,534 o swyddi yn 2018 yn benodol mewn gweithgareddau Addysg, Iechyd a Gwaith Cymdeithasol. Y swyddi mwyaf cyffredin oedd Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref (12%); Nyrsys (10%); Athrawon cynradd a meithrin (5%); Cynorthwywyr Addysgu (5%).

Effaith Busnes Gyffredinol:

Cafwyd effaith sylweddol ar y sector Economi Sylfaenol Ddynol oherwydd ei gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r cyhoedd. Mae effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu hadrodd gan yr is-sectorau unigol o fewn y clwstwr. Mae argyfwng recriwtio cynyddol a gwirioneddol yn y sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd gyda chontractau'n cael eu dychwelyd gan ddarparwyr i Awdurdodau Lleol gan nad ydynt yn gallu recriwtio a chadw digon o weithlu i ddiwallu anghenion gwasanaethau. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi dewis adleoli staff i gefnogi gwasanaethau hanfodol yn hytrach na'u rhoi ar ffyrlo, ond gwelodd y blynyddoedd cynnar a gofal plant nifer o leoliadau'n cau o ganlyniad i'r cyfnod clo. Mae'r sector yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd i annog mwy o unigolion i ddewis gyrfa yn y sector a chwalu canfyddiadau bod gan y rolau gyflogau isel a sgiliau isel. Adroddwyd bod diffyg canllawiau a Chyfarpar Diogelu Personol i ddechrau, fodd bynnag, ymatebodd y gweithlu'n dda i'r heriau a wynebwyd.

Lefelau staffio a recriwtio:

- Gwnaeth lefelau staffio mewn ysgolion aros yn gyson yn gyffredinol gyda nifer fechan iawn ar ffyrlo. Cafodd athrawon cyflenwi a chynorthwywyr addysgu eu rhoi ar ffyrlo drwy eu hasiantaethau. Defnyddiwyd arian ychwanegol a roddwyd i ysgolion i gynnig oriau ychwanegol i staff presennol a recriwtio staff newydd.
- Llwyddwyd i gadw'r rhan fwyaf o'r gweithlu ers mis Mawrth 2020, gyda chynnydd mewn recriwtio i ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael ei nodi ym mis Medi 2020 o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Gwnaeth darparwyr dysgu seiliedig ar waith wynebu heriau wrth recriwtio ymarferwyr.

- O ran iechyd, cynyddodd lefelau staffio i ddechrau gydag ymgyrchoedd recriwtio. Yn ystod y cyfnod cynnar, cafodd myfyrwyr tua diwedd eu hyfforddiant eu cymhwyso'n gynnar a'u symud i ymarfer.
- Nodwyd defnydd cynyddol o weithwyr dros dro ar y dechrau mewn lleoliadau iechyd ac nad oedd unrhyw heriau o ran recriwtio ar wahân i ddiffyg ceisiadau gan y rhai 16-24 oed. Ni nodwyd unrhyw golledion staff dros haf 2020 gyda recriwtio'n cynyddu yn barod ar gyfer pwysau'r gaeaf.
- O fewn gofal cymdeithasol, mae lefelau staffio wedi gweld aflonyddwch sylweddol ac ymgyrchoedd / rhaglenni Cenedlaethol yn cael eu datblygu i ddenu pobl i'r sector. Roedd newidiadau i batrymau gwaith yn gyffredin ar anterth y pandemig er mwyn lleihau croeshalogi. Adroddwyd am heriau wrth sicrhau staff (gan gynnwys staff asiantaeth), yn enwedig mewn gwaith cymdeithasol.
- Cafodd lefelau staffio hefyd eu heffeithio'n sylweddol o fewn y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac o ganlyniad i leoliadau'n cau oherwydd niferoedd isel. Y sector gofal plant y tu allan i'r ysgol sydd wedi cael ei effeithio fwyaf. Nid oedd llawer o glybiau'n gallu agor gan eu bod wedi'u lleoli mewn ysgolion ac mae adeiladau a lleoliadau cymunedol wedi sôn am broblemau wrth recriwtio staff â chymwysterau addas i gymryd lle'r rhai a gollwyd.
- Yn y sector gwarchod plant cafwyd cynnydd mewn datgofrestru a gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant newydd sy'n dechrau. Mae gwarchodwyr plant hefyd wedi wynebu heriau gan gynnwys colli incwm oherwydd hunanynysu a chau, llai o alw ac oedi neu anawsterau wrth gael gafael ar gyllid.
- Gwnaeth lefelau staffio Tân ac Achub a Heddlu De Cymru leihau ychydig i ddechrau oherwydd salwch yn gysylltiedig â Covid-19 neu unigolion yn hunan-warchod a hunanynysu, fodd bynnag, cyflwynwyd ymyriadau i darfu cyn lleied â phosibl.

Y galw am sgiliau ac anghyfatebiad:

- Roedd angen hyfforddiant pellach ar athrawon a staff dysgu seiliedig ar waith er mwyn gallu cyflwyno dosbarthiadau'n effeithiol trwy lwyfannau rhithwir/ar-lein. Arweiniodd hyn at fwy o ddibyniaeth ar dechnoleg ddigidol.
- Roedd yr heriau wrth recriwtio athrawon sy'n siarad Cymraeg ac athrawon BME cyn Covid yn parhau'n bryder.
- Cafodd staff gofal iechyd nad oedd eu rolau'n hanfodol eu hadleoli i rolau mwy hanfodol yn hytrach na'u rhoi ar ffyrlo. Ni nodwyd unrhyw danddefnydd sgiliau gyda sgiliau newydd sy'n cael eu dysgu, fel sgiliau digidol. Roedd hefyd angen uwchsgilio staff yn y maes adsefydlu a rheoli heintiau.
- Bellach, mae arferion dysgu digidol wedi'u gwreiddio fel arferion safonol o fewn gofal plant a gofal cymdeithasol. Mae ystod o adnoddau hyfforddi ar gael ar-lein hefyd, gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar fin lansio System Rheoli Dysgwyr genedlaethol a fydd yn darparu amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar asesiadau risg (h.y. ymwelwyr ar y safle).
- O ran y gwasanaethau brys, mae cryn dipyn o staff cymorth wedi bod yn gweithio gartref a nodwyd swyddi allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae sicrhau bod staff rheng flaen yn mynychu hyfforddiant wedi ei nodi fel rhwystr wrth gau bylchau mewn sgiliau. Ymhlith y galwadau sgiliau allweddol mae Diogelwch Swyddogion, Cymorth Cyntaf, Hyfforddiant Gyrwyr Ymateb, Hyfforddiant Ymchwiliol, Hyfforddiant Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheoli, Gwelliant Parhaus a Datrys Problemau.

Hyfforddiant Cyflogwyr:

- Gwnaeth toriadau mewn cyllidebau ac arbedion effeithlonrwydd effeithio'n negyddol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant i'r gweithlu. Darparwyd hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag addysg ar-lein, a oedd yn caniatáu i staff gwblhau cyrsiau o amgylch gwaith.
- Mae'r sector iechyd wedi gallu uwchsgilio'r gweithlu gyda sgiliau lefel mynediad ar gyfer rolau Gweithwyr Gofal Critigol a Chymorth. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan fwy o hyfforddiant

mewnol. Cafodd hyfforddiant imiweiddio ei loywi hefyd dros haf 2020 a'i ddatblygu'n adnodd digidol. Fodd bynnag, adroddwyd anawsterau wrth ryddhau staff i gael mynediad at hyfforddiant.

- Mae cyllideb hyfforddi AaGIC wedi'i neilltuo a'i gwneud yn fwy hyblyg i'r amgylchiadau newidiol.
- O fewn gofal cymdeithasol, mae hyfforddiant wyneb-yn-wyneb a gafodd ei atal i ddechrau wedi ailgychwyn gydag ymyriadau. Datblygwyd adnoddau newydd i gefnogi lles staff a dysgu ar-lein. Datblygwyd cyrsiau byrrach y gellir eu cwblhau'n hyblyg h.y. wrth newid sifftiau.
- Mae cau lleoliadau gofal plant wedi effeithio ar y ddarpariaeth hyfforddiant gyda chyflogwyr yn canolbwyntio ar gadw at ganllawiau er mwyn cadw eu busnes yn weithredol. Mae datblygu hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu cyfleoedd DPP i ymarferwyr.
- I ddechrau, gwnaeth y gwasanaethau brys leihau gweithgarwch hyfforddi, gan ganolbwyntio ar feysydd hanfodol fel recriwtiaid newydd a hyfforddiant gweithredol.

Prentisiaethau / DSW arall:

- Cafwyd effaith negyddol ar DSW gan fod y sector yn dibynnu'n helaeth ar asesu cymhwysedd unigolyn, sy'n cael ei wneud yn bennaf trwy arsylwadau wyneb-yn-wyneb.
- Mae darparwyr wedi bod yn hyblyg ac yn barod i weithio gydag AaGIC i alluogi dysgu parhaus ac uwchsgilio'r gweithlu iechyd.
- Cynlluniau ar gyfer dysgu carlam ar ôl y cyfnod clo yn cael eu datblygu gan Dysgu Seiliedig ar Waith i hwyluso dilyniant i Brentisiaethau lefel uwch.
- Mewn gofal cymdeithasol, gwnaeth prentisiaethau a chymwysterau newydd gael eu hatal i ddechrau ond maent bellach yn parhau gyda dulliau asesu diwygiedig. Bu gostyngiad yn nifer y prentisiaid oedd yn gwneud cais am ardystiad yn 20/21 ond nid oes data ar gael i ganfod effaith yr oedi.
- Mae her sylweddol yn parhau o ran lleoliadau dysgwyr sy'n amharu ar raglenni dysgu.
- Mae dysgu seiliedig ar waith wedi parhau trwy gydol y pandemig o fewn gofal plant, ac ers codi cyfyngiadau mae adolygiadau ac arsylwadau wedi aildechrau ar safleoedd.
- Nid yw'r gwaith o ddarparu prentisiaethau Heddlu De Cymru wedi cael ei effeithio, er nad yw cyllid yn cael ei dderbyn ar gyfer Gradd-brentisiaethau penodol i'r sector a rhaglenni Prentisiaeth Uwch.
- Diddordeb mewn cyllid LIC drwy CDP a'r Cymhelliant Prentisiaeth yn hytrach na Kickstart.

ECONOMI SYLFAENOL DDYNOL: Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth

Disgrifiad o'r sector:

Mae'r Sector Lletygarwch yn cynnwys amrywiaeth o fusnesau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hamdden a boddhad cwsmeriaid sy'n darparu llety, prydau bwyd a diodydd mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref. Mae'n canolbwyntio ar syniadau o foethusrwydd, pleser, mwynhad a phrofiadau, yn hytrach na darparu ar gyfer yr hyn sy'n hanfodol ac yn angenrheidiol. Gellir diffinio'r Sector Manwerthu fel gwerthiannau gan fanwerthwyr yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, gan gynnwys gwario ar nwyddau, yn bennaf trwy brynu eitemau mewn siopau ac ar-lein. Mae manwerthu'n sector mawr ac amrywiol iawn o ran maint a strwythur busnes a'r cynhyrchion a werthir, a all amrywio o hanfodion pob dydd i nwyddau moethus o safon uchel. Gellir diffinio'r Sector Twristiaeth fel 'gweithgareddau unigolion sy'n teithio i fannau y tu allan i'w hamgylchedd arferol ac yn aros yno am ddim mwy nag un flwyddyn yn olynol ar gyfer hamdden, busnes neu ddibenion eraill heblaw am gael eu cyflogi yn y lle yr ymwelir ag ef'. Yn aml mae gorgyffwrdd rhwng y Sectorau Lletygarwch a Thwristiaeth.

Effaith Busnes Gyffredinol:

Caewyd lleoliadau Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth (ac eithrio'r rhai sy'n darparu nwyddau hanfodol gan gynnwys bwyd a meddygaeth) o ganol mis Mawrth 2020. Adroddwyd yn eang am y referniw a gollwyd yn sgil cau lleoliadau busnes a nodwyd trwy gyfweiliadau â chyflogwyr allweddol fod ymyriadau gan Lywodraeth Cymru fel y Cynllun Cadw Swyddi a'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi achub y sector yng Nghymru. Mae taliadau amserol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer staff ar

ffyrlo wedi helpu busnesau i reoli eu llif arian yn fwy effeithiol. Roedd pryderon sylweddol i ddechrau y byddai cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr, yn enwedig o fewn lletygarwch, yn lleihau'r lle sydd ar gael mewn lleoliadau yn sylweddol, y byddai angen mwy o staffio ac y byddai'r cyfyngiadau'n cael effaith negyddol ar brofiad y cwsmer, gan arwain at greu llawer llai o incwm. Gwnaeth ymchwil a gynhaliwyd gan y sector nodi y byddai lleihau'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol i 1m yn cynyddu'r lle sydd ar gael i tua 70% o'r lle arferol, sy'n agosach at yr angen cyffredinol i lenwi 80% o le er mwyn i fusnesau fod yn gynaliadwy. Erys y rhagfynegiad y gallai gymryd hyd at 2 flynedd cyn i'r sector ddychwelyd i'w 'normal' newydd neu ei statws cyn Covid-19 gyda'r 'syndrom 3 gaeaf' yn cael ei nodi fel ffactor pwysig. Mae'r sector hefyd wedi adrodd bod effeithiau Covid-19 a Brexit gyda'i gilydd wedi creu'r 'storm berffaith', gan arwain at brinder sgiliau sylweddol ym mhob rhan o'r gweithlu. Nododd y sector Manwerthu ei fod yn cyfangu cyn y pandemig Covid-19 ac mae'r effaith wedi gorfodi llawer o fusnesau i ddwyn cynlluniau arallgyfeirio ymlaen h.y. dulliau digidol gwell.

Lefelau staffio a recriwtio:

- Effaith ar lefelau staffio oherwydd bod y gweithlu wedi'i roi ar ffyrlo ar unwaith. Ar gyfer lletygarwch, lleihaodd hyn wrth i gyfyngiadau lacio ac i leoliadau ailagor. Yn gyffredinol, roedd y rolau a roddwyd ar ffyrlo yn delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid tra bod rhai wedi gweld cynnydd mewn oriau gwaith. Cynyddodd galwadau cyflog ar gyfer cogyddion hefyd.
- Prin iawn oedd y diswyddiadau lletygarwch oherwydd y Cynllun Cadw Swyddi, a pharhaodd hyn gyda'r cyfnod ffyrlo'n cael ei ymestyn. Mae'r diswyddiadau wedi bod yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ond mae rhai rolau wedi eu colli e.e. arianwyr (sy'n gysylltiedig â thaliadau di-arian). Mae ymddiswyddiadau yn aml yn gwrthbwysu diswyddiadau.
- Ailddechreuwyd recriwtio yng ngwanwyn 2021 i lenwi'r lleoedd a adawyd gan y gweithwyr mudol yr effeithiwyd arnynt gan Brexit, e.e. ceidwaid tai a glanhawyr, ac ymddiswyddiadau yn sgil staff yn dod o hyd i gyflogaeth amgen.
- Cynyddodd nifer y ceisiadau am swyddi gwag ym mis Medi 2021 o gymharu â misoedd blaenorol.
- Cafodd recriwtio ei ohirio i ddechrau mewn manwerthu, ac eithrio yn achos manwerthwyr bwyd a fferyllfeydd lle ehangwyd y gweithlu i ddelio â galw cwsmeriaid. Ymddangosai fod diswyddiadau'n gwaethgu ar ôl i'r Cynllun Cadw Swyddi gau.
- Roedd atyniadau twristaidd o fewn y rhanbarth yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff medrus. Cafodd y cyfnodau clo effaith enfawr; fodd bynnag mae llawer wedi defnyddio'r amser i uwchraddio cyfleusterau. Gwnaeth diffyg triapiau ysgol hefyd gyfrannu at ostyngiad mewn incwm. Adroddwyd y collwyd staff profiadol ac ni wnaeth llawer o staff a recriwtiwyd ar gyfer swyddi gwag tymhorol ddychwelyd.
- Dychwelodd llawer o fusnesau'r holl staff o ffyrlo dros haf 2021; fodd bynnag, gosodwyd rhai staff yn ôl ar ffyrlo hyblyg ym mis Medi 2021.

Y galw am sgiliau ac anghyfatebiad:

- Cyn Covid-19, roedd prinder sgiliau'n bodoli ar gyfer Cogyddion a Therapyddion Sba. Ers hynny mae'r sefyllfa wedi gwaethgu gyda phrinder ychwanegol ar gyfer staff blaen tŷ, ceidwaid tŷ, staff gweini a glanhawyr a staff arlwygo. Mae myfyrwyr coleg yn aml wedi cael eu recriwtio ar gyfer rolau arlwygo haf.
- Gwnaeth aelodau staff nad oeddent ar ffyrlo gyflawni sawl rôl ac ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol gyda'r gofyniad i ddysgu sgiliau newydd h.y. ymholiadau gwerthiannau ynglŷn â chanslo archebion.
- Nodwyd bod dilyniant mewnol staff i rolau rheoli uwch reoli yn agwedd gadarnhaol ar ôl Covid.
- Nodwyd sgiliau digidol fel maes parhaus i'w ddatblygu ar draws y sectorau gyda'r angen am ryw faint o uwchsgilio wrth ddefnyddio technoleg newydd, sy'n debygol o aros ar ôl Covid.
- Mae cynllun ffyrlo hyblyg wedi'i ddefnyddio o haf 2020 i gylchdroi staff i mewn i'r gweithle er mwyn dysgu sgiliau newydd a cheisio atal sgiliau'r gweithlu rhag dirywio.

- Heriau clir o ran recriwtio gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm/Cerbydau Nwyddau Mawr a gollwyd i ddechrau i sectorau eraill oedd yn cynnig cyflogau uwch; fodd bynnag, mae llawer wedi dychwelyd oherwydd amodau gwaith gwell.
- Roedd lechyd y Cyhoedd yn cael ei flaenoriaethu wrth ailagor lleoliadau ac roedd angen sgiliau lechyd a Diogelwch gwell neu hyfforddiant Covid-19 penodol ar staff, ynghyd â sgiliau meddal hollbwysig.

Hyfforddiant Cyflogwyr:

- Cwtogwyd hyfforddiant staff i ddechrau o fewn lletygarwch gan fod y sector yn canolbwyntio ar oroesi a ffyrdd o arallgyfeirio i greu incwm. Roedd y rhan fwyaf o staff a ddychwelodd i'r gweithle dros haf 2020 wedi cwblhau hyfforddiant wyneb-yn-wyneb mewnol. Nodwyd heriau wrth ddarparu hyfforddiant o bell gan fod y sgiliau y mae eu hangen yn y sector yn cael eu magu trwy ryngweithio'n uniongyrchol â chwsmeriaid.
- Roedd hyfforddiant yn aml yn cael ei ddarparu ar weithdrefnau archebu a thalu newydd o fewn lletygarwch ynghyd â phrotocolau sy'n gysylltiedig â Covid.
- Darparwyd modiwlau hyfforddi ar-lein yn aml i staff ar ffyrlo i'w gwblhau'n wirfoddol gyda chynnydd yn nifer y bobl oedd yn manteisio arnynt.
- Potensial pellach i gyllidebau hyfforddi gael eu lleihau yn gyffredinol (yn ddibynnol ar elw).
- O fewn manwerthu, parhaodd hyfforddiant staff (lle y bo'n bosibl) gyda mynediad yn cael ei ddarparu i adnoddau ar-lein, ac roedd angen llawer o hyfforddiant gloywi wrth ddychwelyd staff o ffyrlo.

Prentisiaethau / DSW arall:

- Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod Prentisiaethau wedi'u hatal gyda rhai Prentisiaid wedi'u colli. Cafodd cyfathrebu ei gynnal â dysgwyr a pharhaodd e-ddysgu; fodd bynnag, roedd cwblhau elfennau sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn anodd gan mai ychydig o weithgarwch seiliedig ar waith a wnaed a diffyg cyfleoedd cysgodi gwaith.
- Byddai gostyngiad yn nifer y staff yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar nifer y Prentisiaethau a chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith yn y dyfodol.
- Croesawyd Cynllun Cymhelliant Prentisiaethau Llywodraeth Cymru a Rhaglen Kickstart yr Adran Gwaith a Phensiynau i'r sector, fodd bynnag, adroddwyd heriau mewn perthynas â chael mynediad at leoliadau Kickstart.
- Mae'n debygol y bydd Prentisiaethau Sba a Therapyddion lechyd yn parhau i gael eu cynnig, er bod amharodrwydd wedi'i nodi gan gyflogwyr i gynnig Prentisiaethau o fewn amgylchedd bwyty gan fod y rhain wedi bod yn anodd eu cadw yn y gorffennol.
- Nodwyd ym mis Medi 2021 y byddai llawer o fusnesau yn gallu cynnig lleoliadau profiad gwaith; fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r unigolyn fod wedi cael eu brechiad dwbl.
- O fewn manwerthu, nodwyd heriau o ran dychwelyd Dysgwyr Seiliedig ar Waith a derbyn prentisiaid ychwanegol gan fod angen i staff ar y safle neu yn y siop fod yn 100% effeithiol oherwydd niferoedd cyfyngedig. Rhagfynegiadau y bydd gostyngiad yn nifer y Prentisiaethau a gaiff eu cynnig.

ATODIAD

Atodiad 1: Rhestr o rhanddeiliaid sy'n cyfranogi

Enw'r Sefydliad	Sector
Bouygues	Adeiladu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Awdurdodau Lleol
Fforwm Gofal Cymru	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Celtic Manor	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)
Cisco Systems	Technoleg Ddigidol a Galluogol
CITB	Adeiladu
Clayton Hotels	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)
Clybiau Plant Cymru	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Coleg y Cymoedd	Adeiladu
Sgiliau Creadigol a Diwylliannol	Creadigol
Cresco Globe LTD	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)
Educ8	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Cyngor y Gweithlu Addysg	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)	BBaChau
FinTech Wales	Technoleg Ddigidol a Galluogol
Gorilla TV Ltd	Creadigol
AaGIC	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Diwydiant Cymru	Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
Sefydliad y Peirianwyr Sifil	Adeiladu
IQE	Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
Mad Dog 2020 Casting	Creadigol
Make UK	Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
McCann and Partners	Adeiladu
Microchip	Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
Cyngor Sir Fynwy	Awdurdodau Lleol
Morgan Sindall	Adeiladu
Newtork Recruitment Wales Limited	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Cyngor Dinas Casnewydd	Awdurdodau Lleol
Newport Wafer Fab	Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
Leekes	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)
Planeweighs Ltd	Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
Rockley Photonics	Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
Cymdeithas Frenhinol y Penseiri	Adeiladu
Screen Alliance Wales	Creadigol
Sgil Cymru	Creadigol
Gofal Cymdeithasol Cymru	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
Technology Connected	Technoleg Ddigidol a Galluogol

UK Hospitality	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)
Urban Myth Films	Creadigol
Vale Resort	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)
Croeso Cymru	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)
Vox Pictures	Creadigol
Fforwm Modurol Cymru	Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
TUC Cymru	Undebau Llafur
Consortiwm Manwerthu Cymru	Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu)